

HANES CELF

Amser - 1.5 awr

Dylai'r ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn

Yn yr atebion dylid cyfeirio at enghreifftiau penodol.

Enwch yr artistiaid; cyfeiriwch at eu gweithiau trwy roi eu teitlau a'r flwyddyn y cawsant eu creu.

1. Gwaith pa artist sy'n rhoi'r pleser mwyaf i chi a pham y mae'n creu argraff arnoch?
2. Credai Pablo Picasso mai 'celwydd yw celfyddyd sy'n gwneud i ni ddeall gwirionedd'. Trafodwch waith dau artist sydd wedi defnyddio'u doniau technegol a grym y dychymyg i gynorthwyo'r gwylidydd i wynebu realiti.
3. Yn y 1930au ysgrifennodd yr artist Stanley Anderson hyn, 'great art stands one hundred men deep'. Beth mae hyn yn ei olygu yn eich barn chi? A yw hi'n berthnasol bod artistiaid heddiw yn gwybod am draddodiadau ac yn dysgu ohonynt?
4. Pam yn eich barn chi y mae paentiadau Argraffiadol yn parhau i ddal dychymyg y cyhoedd bron i ganrif a hanner ar ôl yr arddangosfa Argraffiadol gyntaf?
5. Sut fyddech chi'n cynorthwyo cyfaill i ddeall darn o gelf haniaethol?
6. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng celf a chrefft, artist a chrefftwr?